<table>
<tr>
<td>

**Cardiff Council**

**Replacement Local Development Plan Examination**

**Hearing Session 8 – 09.30 -13.00, 17 June 2026**

**Virtual**

**Natural Environment**

**Issue - Whether the Plan provides a clear, consistent and effective framework to protect, maintain and enhance biodiversity, including legally protected sites, habitats and species; and whether the Plan is in accordance with Planning Policy Wales Chapter 6.**

**1. Opening and introductions**

**2. Plan-wide approach**

2.1 Does the Plan, read as a whole, clearly and consistently require application of the step-wise approach to biodiversity and the delivery of a measurable net benefit for biodiversity, in accordance with Planning Policy Wales Chapter 6?

2.2 Does the Plan provide a clear and effective framework for demonstrating, securing, monitoring and managing these requirements through the development management process?

**3. Policy structure and hierarchy**

3.1 Do the strategic and detailed policies, in particular Policies SP3, SP4, SP21 and BG1–BG7, clearly and consistently translate national planning policy's overarching biodiversity approach into decision-making, or are changes required to policy wording, structure or sequencing to ensure the step-wise approach and biodiversity net benefit are secured at the appropriate level?

**4. Detailed policy matters**

4.1 Is it appropriate for Policy BG1 to address both statutory and non-statutory

</td>
<td>

**Cyngor Caerdydd**

**Cynllun Datblygu Lleol Newydd Archwiliad**

**Sesiwn Gwrandawiad 8 – 09.30 – 13.00, 17 Mehefin 2026**

**Rhithwir**

**Yr Amgylchedd Naturiol**

**Mater - A yw'r Cynllun yn darparu fframwaith clir, cyson ac effeithiol i warchod, cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth, gan gynnwys safleoedd, cynefinoedd a rhywogaethau a warchodir yn gyfreithlon; ac a yw'r Cynllun yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, Pennod 6.**

**1. Agor a chyflwyniadau**

**2. Dull cynllun cyfan**

2.1 A yw'r Cynllun, wedi'i ddarllen yn ei gyfanrwydd, yn ei gwneud yn ofynnol, a hynny mewn modd clir a chyson, gymhwyso'r dull fesul cam at fioamrywiaeth a darparu budd net mesuradwy i fioamrywiaeth, yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, Pennod 6?

2.2 A yw'r Cynllun yn darparu fframwaith clir ac effeithiol ar gyfer arddangos, sicrhau, monitro a rheoli'r gofynion hyn drwy'r broses rheoli datblygu?

**3. Strwythur a hierarchaeth polisi**

3.1 A yw'r polisïau strategol a manwl, yn enwedig Polisïau SP3, SP4, SP21 a BG1–BG7, yn trosi dull bioamrywiaeth cyffredinol y polisi cynllunio cenedlaethol yn glir ac yn gyson yn benderfyniadau, neu a oes angen newid geiriad, strwythur neu ddilyniannu polisi i sicrhau bod y dull fesul cam a budd net bioamrywiaeth yn cael eu sicrhau ar y lefel briodol?

**4. Materion polisi manwl**

</td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| designations, and is the distinction between the approach to statutory sites (such as SSSIs and SACs) and locally designated sites (such as SINCs) sufficiently clear and unambiguous?<br><br>4.2 Do Policies BG2 to BG6 adequately reflect national policy in their treatment of the respective issues they address in relation to biodiversity enhancement, trees, woodlands, hedgerows and soils, including the primacy of avoidance and the requirement for compensatory provision where loss is permitted?<br><br>4.3 Does the location, sequencing and status of Policy BG4 adequately embed the step-wise approach and the requirement to deliver a net benefit for biodiversity, so that these principles shape the interpretation and application of other relevant policies?<br><br>4.4 The Council have previously responded to a question regarding the ‘clearly defined public amenity benefits’ referred to in Policy BG5 and have explained that these are the multiple benefits set out in paragraph 7.375. Can the Council confirm that in accordance with Policy BG5, proposals which result in the permanent removal of and/or significant harm to trees, woodlands and hedgerows will not be permitted unless it is clearly shown that this can be mitigated and/or will achieve the benefits multiple listed in paragraph 7,375?<br><br>4.5 In circumstances where loss of trees, woodlands and hedgerows would be permitted for significant public amenity benefits, does Policy BG5 ensure that compensatory provision is required?<br><br>4.6 The Council have previously responded to a question regarding the ‘clearly defined public amenity benefits’ referred to in Policy BG6 and have explained that these are the multiple benefits set out in paragraph 7.382. Can the Council confirm that the permanent removal of, sealing of and/ or significant harm to the functionality of soils will not be permitted unless it is clearly shown that this will | 4.1 A yw'n briodol i Bolisi BG1 fynd i'r afael â dynodiadau statudol ac anstatudol, ac a yw'r gwahaniaeth rhwng yr ymagwedd at safleoedd statudol (fel SoDdGA ac ACA) a safleoedd a ddynodwyd yn lleol (fel SoBCNau) yn ddigon clir a diamwys?<br><br>4.2 A yw Polisïau BG2 i BG6 yn adlewyrchu polisi cenedlaethol yn ddigonol wrth ymdrin â'r materion priodol y maent yn mynd i'r afael â nhw mewn perthynas â gwella bioamrywiaeth, coed, coetiroedd, gwrychoedd a phriddoedd, gan gynnwys y flaenoriaeth i osgoi a'r gofyniad am unioni lle caniateir colled?<br><br>4.3 A yw lleoliad, dilyniannu a statws Polisi BG4 yn ymgorffori'n ddigonol y dull fesul cam a'r gofyniad i ddarparu budd net i fioamrywiaeth, fel bod yr egwyddorion hyn yn llywio’r modd y caiff polisïau perthnasol eraill eu dehongli a’u cymhwyso?<br><br>4.4 Mae'r Cyngor wedi ymateb o'r blaen i gwestiwn ynglŷn â'r 'buddion amwynder cyhoeddus wedi'u diffinio'n glir', y cyfeirir atynt ym Mholisi BG5 ac wedi esbonio mai'r rhain yw'r buddion lluosog a nodir ym mharagraff 7.375. A all y Cyngor gadarnhau, yn unol â Pholisi BG5, na chaniateir cynigion sy'n arwain at gael gwared ar goed, coetiroedd a gwrychoedd yn barhaol a/neu niwed sylweddol iddynt oni bai ei bod yn cael ei ddangos yn glir y gellir lliniaru hyn a/neu y bydd yn cyflawni'r buddion lluosog a restrir ym mharagraff 7,375?<br><br>4.5 Mewn amgylchiadau lle byddai colli coed, coetiroedd a gwrychoedd yn cael eu caniatáu ar gyfer buddion amwynder cyhoeddus sylweddol, a yw Polisi BG5 yn sicrhau bod angen gwneud iawn am hyn?<br><br>4.6 Mae'r Cyngor wedi ymateb o'r blaen i gwestiwn ynglŷn â'r 'buddion amwynder cyhoeddus wedi'u diffinio'n glir', y cyfeirir atynt ym Mholisi BG6 ac wedi esbonio mai'r rhain yw'r buddion lluosog a nodir ym mharagraff 7.382. A all y Cyngor gadarnhau na chaniateir tynnu'n barhaol, selio a/neu niwed sylweddol i |

| | |
|---|---|
| achieve the multiple benefits set out in paragraph 7.382?<br><br>4.7 Is the terminology used in the supporting text to Policy BG7 accurate and consistent with national policy, including whether the reference to “national sites” should instead be to “European Sites”?<br><br>**5. Spatial and thematic issues**<br><br>5.1 How will the Plan address the disparity in access to green spaces across different parts of the city?<br><br>5.2 How will the Plan address the protection and enhancement of the Gwent Levels, taking account of their recognised ecological importance?<br><br>**6. Action Points** | swyddogaeth priddoedd oni bai ei fod yn dangos yn glir y bydd hyn yn cyflawni'r manteision lluosog a nodir ym mharagraff 7.382?<br><br>4.7 A yw'r derminoleg a ddefnyddir yn y testun ategol i Bolisi BG7 yn gywir ac yn gyson â pholisi cenedlaethol, gan gynnwys a ddylai'r cyfeiriad at "safleoedd cenedlaethol" fod yn lle hynny at "Safleoedd Ewropeaidd"?<br><br>**5. Materion gofodol a thematig**<br><br>5.1 Sut bydd y Cynllun yn mynd i'r afael â'r gwahaniaeth mewn mynediad at fannau gwyrdd ar draws gwahanol rannau o'r ddinas?<br><br>5.2 Sut bydd y Cynllun yn mynd i'r afael â gwarchod a chyfoethogi Gwastadeddau Gwent, gan ystyried eu pwysigrwydd ecolegol cydnabyddedig?<br><br>**6. Camau Gweithredu** |